OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1451 (Cy.129)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, a wneir yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi eu heffaith i gynigion gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn") a adroddodd ym mis Medi 2009 ar ei adolygiad o'r ffiniau sirol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Argymhellodd adroddiad y Comisiwn newid i'r ffiniau rhwng cymunedau Llandochau a Llanfihangel-y-pwll, Llan-maes a Llanilltud Fawr, Penarth a Sili a Phendeulwyn a Llanddunwyd ac i nifer y cynghorwyr cymuned a etholir ar gyfer wardiau yng nghymuned Llanilltud Fawr. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi eu heffaith i argymhellion y Comisiwn heb eu haddasu.

Mae printiau o'r mapiau sy'n dangos y ffiniau wedi'u hadneuo a gellir eu gweld yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Y Swyddfeydd Dinesig, Holton Road, Y Barri CF63 4RU ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd (yr Is-adran Polisi Llywodraeth Leol) CF10 3NQ.

Mae Rheoliadau Newid Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (O.S. 1976/246) y cyfeirir atynt yn erthyglau 1 a 2 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynglŷn ag effaith a gweithredu gorchmynion megis y rhain.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 1451 (W.129)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Vale of Glamorgan (Communities) Order 2010

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order, made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972, gives effect to proposals by the Local Government Boundary Commission for Wales ("the Commission") which reported in September 2009 on its review of the community boundaries in the County Borough of the Vale of Glamorgan. The Commission's report recommended a change to the boundaries between the communities of Llandough and Michaelston, Llanmaes and Llantwit Major, Penarth and Sully and Pendoylan and Welsh St.Donats and to the number of community councillors returned for wards in the community of Llantwit Major. This Order gives effect to the Commission's recommendations without modification.

Prints of the maps showing the boundaries are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of the Vale of Glamorgan County Borough Council, Civic Offices, Holton Road, Barry CF63 4RU and at the offices of the Welsh Assembly Government at Cathays Park, Cardiff (Local Government Policy Division) CF10 3NQ.

The Local Government Area Changes Regulations 1976 (S.I. 1976/246) referred to in articles 1 and 2 of this Order contain incidental, consequential, transitional and supplementary provision about the effect and implementation of orders such as this.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1451 (Cy.129)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010

Gwnaed *18 Mai 2010*

Yn dod i rym *yn unol ag erthygl 1(2) i (4)*

Mae'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**), dyddiedig Medi 2009 ar ei adolygiad o'r ffiniau sirol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a'r cynigion a luniwyd gan y Comisiwn ar y mater hwnnw.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi eu heffaith i gynigion y Comisiwn heb eu haddasu.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi'u breinio bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**):

Enwi a chychwyn

1.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) neu i unrhyw ddiben a osodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn yn weithredol ar 1 Mehefin 2010.

(**1**) 1972 p.70.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 1451 (W.129)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Vale of Glamorgan (Communities) Order 2010

Made *18 May 2010*

Coming into force *in accordance with article 1(2) to (4)*

The Local Government Boundary Commission for Wales has submitted to the Welsh Ministers, in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(**1**), a report dated September 2009 on its review of the community boundaries in the County Borough of the Vale of Glamorgan and the proposals formulated by the Commission thereon.

The Welsh Ministers have decided to give effect to the Commission's proposals without modification.

More than six weeks have elapsed since these proposals were submitted to the Welsh Ministers.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 and now vested in them so far as exercisable in relation to Wales(**2**):

Title and commencement

1.–(1) The title of this Order is The Vale of Glamorgan (Communities) Order 2010.

(2) Subject to paragraph (3) or any purpose set out in regulation 4(1) of the Regulations, this Order comes into operation on 1 June 2010.

(**1**) 1972 c.70.

(**2**) The powers of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now vested in the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(3) Daw erthygl 6 i rym–

(a) at ddibenion gweithrediadau rhagarweiniol i unrhyw etholiad sydd i'w gynnal neu sy'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr yn 2012, ar 15 Hydref 2011;

(b) at bob diben arall, ar ddiwrnod arferol ethol cynghorwyr yn 2012.

(4) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2010, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn–

ystyr Map A ("*Map A*"), Map B ("*Map B*"), Map C ("*Map C*") a Map D ("*Map D*") yn eu tro yw'r mapiau sydd wedi'u marcio A, B, C a D o Orchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010 ac sydd wedi'u hadneuo yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newid Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**1**); ac

os dangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, llinell reilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

Newid ardaloedd llywodraeth leol

3. Gwneir newidiadau i'r ardal llywodraeth leol ym Mwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn unol â'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn hwn.

Llandochau a Llanfihangel-y-pwll – newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

4. Mae'r rhan o gymuned Llandochau a ddangosir â chroeslinellau ar Fap A–

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llanfihangel-y-pwll;

(b) yn ffurfio rhan o ward Llanfihangel-y-pwll yng nghymuned Llanfihangel-y-pwll; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Dinas Powys.

(**1**) O.S. 1976/246 (fel y'i diwygiwyd gan amryfal offerynnau statudol ond nad yw'r diwygiadau hynny'n berthnasol i'r offeryn statudol hwn).

(3) Article 6 comes into force–

(a) for the purpose of proceedings preliminary or relating to any election to be held on the ordinary day of election of councillors in 2012, on 15 October 2011;

(b) for all other purposes, on the ordinary day of election of councillors in 2012.

(4) For all other purposes, this Order comes into force on 1 December 2010, which is the appointed day for the purposes of the Regulations.

Interpretation

2. In this Order-

Map A ("*Map A*"), Map B ("*Map B*"), Map C ("*Map C*") and Map D ("*Map D*") mean respectively the maps marked A, B, C and D of The Vale of Glamorgan (Communities) Order 2010 and deposited in accordance with regulation 5 of the Regulations;

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976(**1**); and

where a boundary is shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature, it is to be treated as running along the centre line of the feature.

Local government area changes

3. Changes are made in the local government area of the County Borough of the Vale of Glamorgan in accordance with the following provisions of this Order.

Llandough and Michaelston – change in community areas and consequential changes to electoral arrangements

4. The part of the community of Llandough shown hatched on Map A–

(a) is transferred to the community of Michaelston;

(b) forms part of the Michaelston ward of the community of Michaelston; and

(c) forms part of the electoral division of Dinas Powys.

(**1**) S.I. 1976/246 (as amended by various statutory instruments which amendments are not relevant to this statutory instrument).

Llan-maes a Llanilltud Fawr – newid mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

5. Mae'r rhan o gymuned Llanilltud Fawr a ddangosir â chroeslinellau ar Fap B yn cael ei throsglwyddo i gymuned Llan-maes.

6. Yng nghymuned Llanilltud Fawr–

(a) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros ward Trebefered yw 4;

(b) mae nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros ward y Gogledd yn parhau yn 5;

(c) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer ward y De-ddwyrain yw 3;

(ch) nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros ward y Gorllewin yw 2.

Penarth a Sili – newidiadau mewn ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

7.–(1) Mae'r rhannau o gymuned Sili a ddangosir fel ardaloedd croeslinellog "a" a "b" ar Fap C–

(a) yn cael eu trosglwyddo i gymuned Penarth;

(b) yn ffurfio rhan o ward Plymouth yng nghymuned Penarth; ac

(c) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Plymouth.

(2) Mae'r rhan o gymuned Penarth a ddangosir fel ardal groeslinellog "c" ar Fap C–

(a) yn cael ei throsglwyddo i gymuned Sili; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Sili.

Pendeulwyn a Llanddunwyd – newidiadau mewn ardaloedd cymunedol

8. Mae'r rhan o gymuned Llanddunwyd a ddangosir â chroeslinellau ar Fap D yn cael ei throsglwyddo i gymuned Pendeulwyn.

Llanmaes and Llantwit Major – change in community areas and consequential changes to electoral arrangements

5. The part of the community of Llantwit Major shown hatched on Map B is transferred to the community of Llanmaes.

6. In the community of Llantwit Major–

(a) the number of councillors to be returned for the Boverton ward is 4;

(b) the number of councillors to be returned for the North ward continues to be 5;

(c) the number of councillors to be returned for the South East ward is 3;

(d) the number of councillors to be returned for the West ward is 2.

Penarth and Sully – changes in community areas and consequential changes to electoral arrangements

7.–(1) The parts of the community of Sully shown as hatched areas "a" and "b" on Map C are–

(a) transferred to the community of Penarth;

(b) form part of the Plymouth ward of the community of Penarth; and

(c) form part of the electoral division of Plymouth.

(2) The part of the community of Penarth shown as hatched area "c" on Map C is–

(a) transferred to the community of Sully; and

(b) forms part of the electoral division of Sully.

Pendoylan and Welsh St.Donats – changes in community areas

8. The part of the community of Welsh St. Donats shown hatched on Map D is transferred to the community of Pendoylan.

Carl Sargeant


Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Social Justice and Local Government, one of the Welsh Ministers

18 Mai 2010

18 May 2010


Map A Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2010.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Drwydded: 100017916

315.09-10 Cynhyrchwyd gan Cartograffeg,
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map A of the Vale of Glamorgan (Communities) Order 2010



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government. Licence Number: 100017916

315.09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government


Map B Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2010.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Drwydded: 100017916

315.09-10 Cynhyrchwyd gan Cartograffeg,
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map B of the Vale of Glamorgan (Communities) Order 2010



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright 2010.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government. Licence Number: 100017916

315.09-10 Produced by Cartographics,
Statistical Directorate, Welsh Assembly Government

Map C Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg El Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2010.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Drwydded: 100017916

315.09-10 Cynhyrchwyd gan Cartograffeg,
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru


Map C of the Vale of Glamorgan (Communities) Order 2010



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government. Licence Number: 100017916

315.09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government


Map D Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010



Mae'r map hwn yn seiliedig ar ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron 2010.
Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyn neu achos sifil. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhif y Drwydded: 100017916

315.09-10 Cynhyrchwyd gan Cartograffeg,
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Map D of the Vale of Glamorgan (Communities) Order 2010



This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2010. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government. Licence Number: 100017916

315.09-10 Produced by Cartographics, Statistical Directorate, Welsh Assembly Government

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1451 (Cy.129)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Bro Morgannwg (Cymunedau) 2010

©℗ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 1451 (W.129)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Vale of Glamorgan (Communities) Order 2010

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.00

W700/06/10 ON